

Lowri Ifor

Cerdyn Post Creadigol: Nicaragua


Mae'r adar wedi hedfan o'r nyth.

Yn eu gwanwyn mecanyddol, â hwythau'n gywion melyn newydd-ddeor, petrus oedd eu siwrneiau cyntaf o'r *depot*. Cylchoedd bychan araf yn strydoedd sybyrbia, yn chwilio am bryfaid o blant i'w casglu. Wedi hel bolriad ohonynt, cylchu'n ofalus eto cyn eu gollwng yn saff yng nghanghennau'r ysgol.

B Street, Kirby Way, Fullerton Road, Main Avenue, Highfield Elementary. Daw'r haf, ac mae'r adar yn diflasu ar hedeg yr un hen siwrneiau. Mae'r cotiau llachar bellach yn plicio'n blu bach budr, a phan mae'r *depot* yn dodwy nythaid arall o gywion melyn newydd sy'n hedfan yn chwim, gwyddant ei bod hi'n amser symud.

Try'r hydref yn aeaf, ac mae'r adar yn mudo i wres y de, ac yn nythu gyda theuluoedd newydd. Cânt fwrw ei plu a chael eu hailwisgo'n lliwgar, gydag enwau llachar gwahanol i'w tywys ar bob taith. Panajachel, Chichicastengango, Chamultepec, Apaneca, Ataco - trydarant bob sillaf yn hapus wrth wibio'n rhydd.

Daw gwanwyn eto, a phan welant aelod arall o'u haid wrth ei basio ar gornel serth, mae clochdar cyfarchiad eu cyrn yn atseinio drwy'r dyffrynnoedd. Do, fe hedsant i'r unlle, ond nid adar o'r unlliw mohonynt bellach.



At olygyddion **Y STAMP**
yn eu byncher cyfrinachol
yng nghyffiniau

LLANRHYSTUD

Cymru

Ewrop

Yn y byd a'r bydysawd



ystamp.cymru
@ystampus
golygyddion.ystamp@gmail.com